| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD :** | **28 Chwefror 2011** |
| **TEITL :** | **Cais am ollyngiad gan y Cynghorydd Louise Hughes** |
| **AWDUR :** | **Swyddog Monitro** |
| **GWEITHREDU :** | **Penderfynu ar y cais** |

**Cefndir**

1. Atodaf, fel **Atodiad 1**, gopi o ffurflen a dderbyniwyd wrth y Cynghorydd Louise Hughes, Cyngor Gwynedd, yn cyflwyno cais am ollyngiad mewn cysylltiad ag ad-drefnu ysgolion cynradd yn nalgylch Ysgol Tywyn. Ar 1 Mawrth 2011 bydd y Cyngor Llawn, yn ystyried adroddiad *"ar yr ymgynghoriad statudol ar gynnig i sefydlu ysgol ardal yn Llanegryn i wasanaethu dalgylchoedd presennol Ysgolion Abergynolwyn, Bryncrug, Llanegryn a Llwyngwril. Mae hyn yn dilyn penderfyniad y Cyngor yn Rhagfyr 2010 i gau Ysgol Abergynolwyn erbyn 31 Mawrth 2011 ac Ysgolion Bryncrug, Llanegryn a Llwyngwril erbyn 31 Awst 2013."*

2. Mae'r Cynghorydd wedi datgan buddiant sy'n rhagfarnu oherwydd bod ei merch yn ddisgybl yn ysgol Llanegryn.

3. Mae gan y Pwyllgor Safonau'r hawl i ganiatáu gollyngiad os yw'r sefyllfa yn dod o fewn un (neu fwy) o'r sefyllfaoedd a restrir yn y rheoliadau perthnasol (**Atodiad 2)**.

4. Mae'r Pwyllgor yn y gorffennol wedi gosod canllawiau i'w hystyried wrth ystyried ceisiadau yn ymwneud â threfniadaeth ysgolion:

> *Y byddai 'tad/mam, taid/nain, ŵyr/wyres, gŵr neu wraig, plant, brawd neu chwaer yn creu cysylltiad rhy agos i ganiatáu gollyngiad o safbwynt ysgolion penodol oherwydd y byddai'n anodd i'r cyhoedd gael hyder yn y modd y gwneid y penderfyniadau*"

5. Caniataodd y Pwyllgor ollyngiad i'r cynghorydd ar 9 Awst 2008 fel a ganlyn:

> *"Caniatáu gollyngiad i'r Cynghorydd Louise Hughes dan baragraff 2(ch) a (d) i gymryd rhan mewn trafodaeth a phleidleisio ar y Cynllun Trefniadaeth Ysgolion ar yr amod nad yw'r gollyngiad yn ymestyn i drafodaethau ar ddyfodol unrhyw ysgol lle mae plentyn y Cynghorydd Hughes yn ddisgybl"*

6. Mae canllawiau'r Ombwdsmon ar y Cod Ymddygiad (Ebrill 2010) yn nodi'r canlynol mewn cysylltiad â gollyngiadau (tud.35):

> *"Bydd angen i'r pwyllgor safonau gydbwyso budd y cyhoedd mewn atal aelodau sydd â buddiant sy'n rhagfarnu rhag cymryd rhan mewn penderfyniadau, yn erbyn budd y cyhoedd mewn gwneud penderfyniadau gan grŵp o aelodau'r awdurdod sy'n weddol gynrychioladol."*

**Argymhelliad**

7. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried a phenderfynu ar gais y Cynghorydd Louise Hughes am ollyngiad.